

Canllaw Ffynhonnell Rhif 5

COFRESTRAU ETHOLIADOL

BETH YW COFRESTRAU ETHOLIADOL?

Cofnodion a gesglir gan awdurdodau lleol yw cofrestrau etholiadol. **Maent yn rhestru'r bobl sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad ar yr adeg pan gynhyrchwyd y gofrestr.** Ambell waith maent yn cael eu galw'n gofrestrau neu restrau etholwyr / pleidleiswyr. Cyn 1832, dim ond perchnogion a deiliaid tai gwerthfawr oedd yn cael pleidleisio. Ar ôl diwygiadau yn 1832 ac 1835, dim ond ychydig o ddynion oedd yn cael pleidleisio ac nid oedd merched yn cael pleidleisio o gwbl. Yn 1867, cafodd yr etholfraint ei hymestyn i gynnwys pob dyn oedd yn berchen ar eiddo a oedd yn werth dros £5 y flwyddyn a thenantiaid tir a oedd yn werth dros £12 y flwyddyn. Gallai merched a oedd yn berchen ar dai (hen ferched a gwagedd gweddw) bleidleisio mewn etholiadau Byrddau Gwarcheidwaid neu Fyrddau Ysgol ond nid mewn etholiadau lleol. Yn 1918, gallai pob dyn dros 21 oed a oedd wedi byw yn yr un cyfeiriad am 6 mis, a merched dros 30 oed a oedd yn berchnogion tai neu'n wragedd i berchnogion tai, bleidleisio. **Erbyn 1928 gallai bron i bawb dros 21 oed gymryd rhan mewn etholiad.** Mae bylchau yn y cofrestrau dros gyfnodau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd pan na chynhyrchwyd cofrestrau (nid oes gennym gofrestrau ar gyfer 1916 – 1917 na 1940 – 1944).

Cyn 1880, trefnwyd y rhestrau yn nhrefn y wyddor ar gyfer pob ward. Newidiwyd y trefniant ar ôl y dyddiad hwn a dechreuwyd rhestru'r strydoedd fesul ardal pleidleisio o fewn wardiau - h.y. **trefnu yn ôl cyfeiriad yn hytrach na chyfenw.** Golygai hyn bod rhaid chwilio trwy nifer o ardaloedd pleidleisio i chwilio am enw ar hap os nad oeddech yn gwybod cyfeiriad yr unigolyn yr oeddech yn chwilio amdano.

Mae gennym hefyd **Gofrestrau Pleidleiswyr Gwasanaethau Absennol, 1918 – 1939** (FC/C/1/1/64-78) sy'n rhestru enwau'r pleidleiswyr absennol a oedd yn y lluoedd arfog; eu cyfeiriad; disgrifiad y gwasanaeth; eu rhif, rheng a'u safle yn y llong/catrawd.

Mae ein casgliadau yn cynnwys rhai Llyfrau Pleidleisio a chofnodion etholiadol cynharach hefyd, er enghraifft, cofnodion Etholiadau Bwrdeistref y Fflint, 1697-1734 (D/DM/21). Gweler y mynegai pynciau o dan 'Etholiadau' am fwy o fanylion.

Os hoffech weld **cofrestrau etholiadol cyfredol neu fwy diweddar**, mae copïau ar gael yn Adran Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB, Ffôn 01352 752121. Gallwch edrych ar y cofrestrau ar unrhyw adeg yn ystod oriau agor y swyddfa.

BETH ALLAF EI DDARGANFOD O GOFRESTRAU ETHOLIADOL?

Gellir defnyddio cofrestrau etholiadol i ddarganfod enwau etholwyr a lle'r oeddent yn byw. Mae'n bosibl y gallwch ddod o hyd i unigolyn cyn belled a bod gennych ryw syniad o le'r oeddent yn byw. Gallwch hefyd wirio cyfeiriad penodol i weld pwy oedd yn byw yno ar unrhyw adeg, er mai dim ond y preswylwyr a oedd yn gymwys i bleidleisio a restrir yn y gofrestr, felly ni fydd plant yn cael eu rhestru. Rhwng 1885 ac 1915, roedd manylion landlordiaid a nifer yr ystafelloedd yr oeddent yn eu rhentu yn cael eu nodi gyferbyn ag unrhyw unigolyn a oedd yn gymwys i bleidleisio fel lletywr. Hyd 1918,

roedd gwybodaeth am gymhwyster unigolion i bleidleisio yn cael eu datgan hefyd. Byddai talfyriadau'n cael eu defnyddio, megis: 'D' - nid yw'n gymwys i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol; 'M' - llongwr masnach; 'S' - mewn gwasanaeth milwrol; ac 'L' - nid yw'n gymwys i bleidleisio mewn etholiadau Seneddol. Os na allwch ddod o hyd i unigolyn mewn cofrestr gyffredinol, efallai y byddai'n werth gwirio'r gofrestr pleidleiswyr gwasanaeth absennol i weld a oedd yr unigolyn i ffwrdd yn y lluoedd arfog.

SUT ALLAF DDEFNYDDIO COFRESTRAU ETHOLIADOL YN SWYDDFA GOFNODION SIR Y FFLINT?

Mae gan Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint Gofrestrau Etholiadol ar gyfer **1912 - 2001**, gyda'r bylchau a ddisgrifir uchod. Mae ganddynt gyfeirnod: **FC/C/1** a cheir mynegai ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Tan 1927, roedd y cofrestrau'n cael eu dosbarthu ddwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn a'r hydref. Roedd y sir yn cael ei chwmpasu mewn dwy gyfrol ar gyfer y cyfnod 1919-1932, a thair cyfrol rhwng 1933-1939. Dosbarthwyd un gyfrol bob blwyddyn ar ôl yr Ail Ryfel Byd nes i'r sir gael ei rhannu'n etholaethau Dwyrain a Gorllewin y Fflint yn 1949.

Cedwir cofrestrau etholiadol yn y cyfrolau rhwym gwreiddiol a bydd angen i chi neilltuo desg i edrych ar y rhain. Mae'r mynegai (FC/C) ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Neilltuwch bob cofrestr unigol yn defnyddio **ffurflen ymgeisio dogfen**. Ysgrifennwch gyfeirnod y ddogfen (ynghyd â'ch enw, rhif eich sedd a'r dyddiad) ar y ffurflen a chyflwynwch hi wrth y ddesg ymholiadau i neilltuo'r cofnodion.

A ALLAF GAEL COPÏAU O GOFRESTRAU ETHOLIADOL?

Nid ydym yn darparu copïau o'r cofrestrau etholiadol sydd gennym gan eu bod yn fersiynau llawn heb eu golygu sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol ac sydd wedi'u cyfyngu o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Er hynny, gallwch edrych ar y cofrestrau a gwneud cofnodion eich hunain mewn pensil at ddibenion ymchwil preifat.

Gallwch brynu copïau o'r fersiwn olygedig gan Adran Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir y Fflint (gweler uchod).

GWYBODAETH BELLACH

Am fwy o wybodaeth am **gofrestrau etholiadol a lle i gael gafael arnynt**, edrychwch ar y cyhoeddiad canlynol sydd ar gael ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio:

Gibson, J. Electoral Registers 1832-1948; and Burgess Rolls. The Family History Partnership. 2008.

Mae'r llyfrau canlynol sydd ar gael yn yr ystafell chwilio yn cynnwys gwybodaeth am gofrestrau etholiadol hefyd:

Hey, D. The Oxford Companion to Local and Family History. Oxford. 1995.

Riden, P. Local History: A Handbook for Beginners. London. 1983.

Os bydd angen **cofrestrau etholiadol ardaloedd eraill arnoch**, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gofnodion leol briodol. Hefyd mae gan y Llyfrgell Brydeinig gofrestrau etholiadol ar gyfer pob rhan o'r Deyrnas Unedig o 1947 ymlaen. Cyfeiriad y Llyfrgell yw British Library, 96 Euston Road, London, NW1 2DB, Ffôn. 020 7412 7536, ac mae eu gwefan: www.bl.uk yn cynnwys ffeithiau a gwybodaeth ddefnyddiol am ddefnyddio cofrestrau etholiadol.